# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai - Pencadlys Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 12 Mehefin 2019)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Edgar Wyn Owen

Jason Wayne Parry

Elfed Williams (Cadeirydd)

Dafydd Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 7

TY COFFI, 23a STRYD FAWR, Y BALA, LL23 7LU

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o’r pedwar egwyddor i’w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20fed MEHEFIN 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – TŶ COFFI, 23a STRYD FAWR, BALA, LL23 7LU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer Tŷ Coffi, 23a Stryd Fawr, Bala, LL23 7LU gan Mrs Linda Williams a Mrs Wendy Leigh Williams.

Gwneir y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi ei recordio a perfformiadau o ddawns dan do ac awyr agored a chyflenwi alcohol ar yr eiddo yn unig. Bwriedir rhedeg yr eiddo fel siop goffi a chaffi teuluol.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Monday 08:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 11:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-23:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 11:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-23:00 |

| | |
|---|---|
| | Dydd Sul/Sunday 11:00-23:00 |
| **Perfformiadau Dawns/Performances of Dance** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 11:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-23:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar yr Eiddo/On Premises | Dydd Llun/Monday 11:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-23:00 |

**<u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>**

- Gweithdrefnau rheolaeth gadarn a hyfforddiant staff gan gynnwys gwirio cardiau adnabod, polisi profi oed 25
- Gweithio ar y cyd gyda'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu
- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd a diogelwch
- Rhaid i blant fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni neu gwarchodwyr
- Monitro lefelau sŵn a lleihau lefelau ar ôl 11yh, sicrhau eu bod yn derbyn nwyddau a gwagio biniau poteli ar adegau priodol
- Gweithredu system TCC (CCTV) a hyfforddi staff ar ei ddefnydd

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**<u>YMGYNGHORIAD</u>**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – dim gwrthwynebiad |
| Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd | Llythyr - gwrthwynebiad |

**<u>Gwrthwynebiad</u>**

Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Uned Gwarchod y Cyhoedd adran amgylchedd yn sgil pryderon niwsans cyhoeddus. Mae'r eiddo wedi ei leoli mewn ardal boblog iawn ble mae eiddo preswyl uwchben, ac mae pryder o ran diffyg rheolaeth sŵn. Noder hefyd fod diffyg gwybodaeth yn y cais o ran rhagofalon sŵn; gyda'r bwriad i gynnal adloniant tu allan tan 22:00 bob nos. Danfonwyd llythyr i'r ymgeiswyr gan yr adran amgylchedd, yn amlygu pryderon penodol megis safon insiwleiddio'r adeilad rhag bod sŵn yn treiddio i'r fflatiau uwchben; ac anaddasrwydd yr eiddo o ran lleoliad i gael adloniant tu allan.

Mae swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn ddiweddar wedi derbyn cynnig o gyfaddawd gan yr ymgeisydd - sydd wedi cytuno i beidio cynnal adloniant tu allan i'r eiddo o gwbl; ac i gyfyngu'r drwydded i adloniant acwstig yn unig tu mewn i'r eiddo.
Fe fydd cyfle i'r ymgeisydd gadarnhau hyn wrth yr Is Bwyllgor.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn a dderbyniwyd.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.